

Cwrs Mynediad: Uned 1

Nod: Ynganu *Pronunciation*

1. The Alphabet

Ymarfer gyda'r tiwtor

Practise with the tutor

a	mam	<i>always as in ambulance</i>
b	mab	
c	car	<i>always hard as in the English could, never as in the English cerise</i>
ch	chi	<i>gargling sound, like the Scottish loch or the German Aachen</i>
d	da	
dd	dda	<i>said as the th in the and heather</i>
e	de	<i>always open as in hen, but not as in demand</i>
f	saf	<i>said as the v in very</i>
ff	saff	<i>said as the ff in different</i>
g	gan	<i>always hard as in gone, never as in general</i>
ng	ing	<i>as in sing</i>
h	hon	
i	ci	<i>as in sink or the English ee in meek, never as in slime</i>
j	garej	
l	lan	
ll	lle	<i>prepare to say l, then blow really hard making a sound like a dentist's suction pipe, but blowing out!</i>
m	man	
n	ni	
o	to, toc	<i>as in door and orange, never as in old</i>
p	pen	
ph	phen	<i>as in physics</i>
r	car	<i>rolled much more than in English – think lawn mowers and old-fashioned phones</i>



rh	rhif	<i>a more breathy r, without the voice</i>
s	saff	
	siop	<i>si- is pronounced as sh in English, but the Welsh word si on its own is pronounced as the English sea, or the Spanish si.</i>
t	ti	
th	beth	<i>as in things</i>
u	uno,	
	pump	<i>as in tree, plmp</i>
w	pwll	<i>as in blue or cool</i>
y	dyn	<i>as in Dean</i>
	llyn	<i>as in the English tin</i>
	Cymru	<i>as in up</i>
	y, yr, yn,	
	dy, fy	<i>also as in up</i>

- ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th are one letter in Welsh,
so the word **lleng** would fit into 3 squares in a crossword.

2. Ymarfer llafariad

Practise your vowels

*If there is a circumflex (^) on a vowel,
keep it going a bit longer:*

da	<i>good</i>
de	<i>south</i>
do	<i>yes</i>
du	<i>black</i>
dy	<i>your</i>

can	cân
her	sêr
mor	môr
pwn	sŵn
llyn	Llŷn

3. Ymarfer dwy sain

Practise two sounds

cofi	coffi	llon	llong	dyn	dynion
bedd	beth	Gwyneth	Gwynedd	sych	sychder
dal	dall	nodi	noddi	pys	pysgod
iâ	iâr	dallu	dathlu	dydd	dyddiau
saf	saff	yr ardd	yr arth	llys	llysiau
fi	ffi	crafu	craffu	byd	bydol
ofer	offer	dur	dŵr	hynny	ymyl
				ynys	yfory
				dyffryn	ysbyty

4. Combined vowels or diphthongs

*Practise these with your tutor -
are you feeling like a parrot yet?*

- **ai, ae, and au** as in the English *aisle*

craig
aur
traed

- **aw** as in the English *cow*

cawr
mawr

- **eu, ei and ey** as in the English *say*

creigiau
euraid
Gwrtheyrn

- **oe, oi and ou** as in the English *boy*

oed
rhoi
cyffrous

- **ow** as in the English *own*

brown

- **wy** as in the American English *hooley*

bwyd



Gyda phartner

With a partner

Say each of these in turn, then start again with the other partner going first this time:

- | | | | |
|----------|-----------|-----------|--------------|
| 1. mawr | 6. lleyg | 11. tawdd | 16. dreigiau |
| 2. troes | 7. hwylio | 12. neis | 17. draig |
| 3. mwy | 8. bloedd | 13. Duw | 18. sain |
| 4. brown | 9. craig | 14. mewn | 19. cyffrous |
| 5. main | 10. owns | 15. troir | 20. mawn |

5. Geiriau hir – ble i roi'r acen

Long words – where do you put the accent?

Mae'r acen fel arfer ar y sillaf olaf ond un.

The accent is usually on the last syllable but one.


Ymarfer gyda'r tiwtor, wedyn gyda phartner:

Practise with the tutor, then with a partner:

cymylog	tywyllwch	penderfynu	crochenwaith
dibynnu	meddygfa	mabolgampau	eliffantod
cymysgu	llygoden	Aberystwyth	cricedwr

Enwau lleoedd

Place-names



Gyda phartner

With a partner

Mae dau fap gwahanol o Gymru gyda Phartner A a Phartner B. Partner A i ddewis enw lle a'i ddweud e, yna Partner B i chwilio am enw'n dechrau â'r un llythyren a'i ddweud e.

Partners A and B have two different maps of Wales. Partner A chooses a place-name and says it; Partner B has to look for a name starting with the same letter and say it.

Partner A



Partner B



Arwyddion

Signs



Gyda phartner

With a partner

Dyma rai arwyddion cyffredin. Ynganwch nhw.
Here are some signs you may already have seen here and there. Practise reading them aloud.



Ar werth

Ar gau

Perygl!

Allan

Dim cŵn

Ystafell Un

Y Prawf Terfynol

The Ultimate Test



Gyda phartner

With a partner

Dyma eiriau Cymraeg sydd hefyd yn eiriau Saesneg. Ynganwch nhw fel geiriau Cymraeg!
*Here are some Welsh words which are also words in English.
Pronounce them as Welsh words!*

- | | | |
|------------|------------|------------|
| 1. partner | 2. angel | 3. Euros |
| 4. cell | 5. faint | 6. pump |
| 7. union | 8. paid | 9. truth |
| 10. bun | 11. allan | 12. gem |
| 13. march | 14. campus | 15. afraid |
| 16. her | 17. hurt | 18. person |
| 19. murmur | 20. dull | 21. dawn |
| 22. sail | 23. toes | 24. draw |
| 25. haul | | |

Have fun going over this unit before the next lesson!

Cwrs Mynediad: Uned 2



Nod: Cyfarch a chyflwyno, Rhifo 0-10, Dyddiau'r wythnos
Greetings and Introductions, Counting from 0-10, Days of the Week

1. Cyfarchion / Greetings

Sut mae?	<i>How are things/you?</i>
Bore da	<i>Good morning</i>
Prynhawn da	<i>Good afternoon</i>
Noswaith dda	<i>Good evening</i>
Hwyl / Da boch chi	<i>Goodbye</i>



Gyda phartner

Pa gyfarchiad?

Which greeting would you use at these different times of day?

8.00 a.m.	7.00 p.m.	2.30 p.m.	8.30 p.m.
10.00 a.m.	9.30 p.m.	11.05 a.m.	4.00 p.m.

2. Pwy dych chi?

_____ dw i

Braf cwrdd â chi

Who are you?

I'm _____

Nice meeting you

3. Sut dych chi?

Da iawn, diolch

Iawn

Go lew / Gweddol

Wedi blino

Ofnadwy

How are you?

Very well, thank you

Fine

O.K., Not bad

Tired

Terrible

Tasg i'r dosbarth Gofynnwch i 4 person

Ask 4 people

Pwy dych chi?

Sut dych chi?

1.	
2.	
3.	
4.	

4. Rhifo / Counting

0	-	dim
1	-	un
2	-	dau
3	-	tri
4	-	pedwar
5	-	pump
6	-	chwech
7	-	saith
8	-	wyth
9	-	naw
10	-	deg

Grid Bingo

Ysgrifennwch dri rhif o 0 - 10 yn y grid a gwrandewch ar eich tiwtor yn galw'r rhifau.

Write three numbers from 0 - 10 in the grid and listen to your tutor calling out the numbers.

--	--	--

Gwneud sŷms!


Rhowch yr ateb
i'r symiau yn
Gymraeg.

Give the answer
to the sums in
Welsh.

1. $4 + 5 =$ _____
2. $8 - 2 =$ _____
3. $3 + 4 =$ _____
4. $8 - 6 =$ _____
5. $5 + 3 =$ _____
6. $4 + 6 =$ _____
7. $9 + 2 - 11 =$ _____

5. Dyddiau'r wythnos / Days of the week

Dydd Sul	Sunday
Dydd Llun	Monday
Dydd Mawrth	Tuesday
Dydd Mercher	Wednesday
Dydd Iau	Thursday
Dydd Gwener	Friday
Dydd Sadwrn	Saturday



Gyda phartner

Yn eich tro, dwedwch ddyddiau'r wythnos mewn trefn, gan ddechrau gyda dydd Sul.
Take it in turns to say the days of the week in order, starting with Sunday.

Dydd Gwener

Dydd Mawrth

Dydd Llun

Dydd Iau

Dydd Mercher

Dydd Sadwrn

Dydd Sul



Deialog

- A:** Bore da. Pwy dych chi?
B: Siân dw i. Pwy dych chi?
A: Huw dw i. Sut dych chi, Siân?
B: Wedi blino. Sut dych chi?
A: Da iawn. Braf cwrdd â chi. Hwyl!
B: Hwyl!

Ewch dros y ddeialog gyda'ch partner, yna newidiwch y geiriau sydd mewn llythrennau trwm, er enghraifft:

Practise the dialogue with your partner, then change the words in bold letters, for example:

- A:** Prynhawn da. Pwy dych chi?
B: John dw i. Pwy dych chi?
A: Carol dw i. Sut dych chi, John?
B: Go lew. Sut dych chi?
A: Ofnadwy. Braf cwrdd â chi. Hwyl!
B: Hwyl!

Cwrs Mynediad: Uned 3



Nod: Gofyn am wybodaeth sylfaenol a'i rhoi *Asking for and giving basic information*

1. Beth yw'ch enw chi?

Huw dw i

Gareth dych chi?

Ie / Nage

What's your name?

I'm Huw

Are you Gareth?

Yes/No

2. Beth yw'ch rhif ffôn chi?

Caerdydd 567 900

What's your phone number?

Cardiff 567 900

Holwch am enw a rhif ffôn hyd at 5 o bobl.

Ask for the name and phone number of up to 5 people.

	Enw	Rhif ffôn
Person 1		
Person 2		
Person 3		
Person 4		
Person 5		

3. Ble dych chi'n byw?

Dw i'n byw yn Abertawe

Dw i'n byw ar bwys Llanbed

Dych chi'n byw yn Aberystwyth?

Ydw / Nac ydw

Dw i ddim yn byw yn Hirwaun

Where do you live?

I live in Swansea

I live near Lampeter

Do you live in Aberystwyth?

Yes/No

I don't live in Hirwaun



**Ceisiwch ddyfalu ble
mae eich partner yn byw.**

*Try and guess where
your partner lives.*

'Dych chi'n byw yn Aberystwyth?'

'Ydw, dw i'n byw yn Aberystwyth'

neu

'Nac ydw, dw i ddim yn byw yn

Aberystwyth'



4. O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?

Dw i'n dod o Bontypridd

Dw i'n dod o Loegr

Where do you come from originally?

I come from Pontypridd

I come from England

*Don't worry about the letter changes at the beginning of words for now, e.g. o Bontypridd.
These will be explained later. Learn what you need to say.*

5. Beth dych chi'n wneud?

Athrawes dw i

Mecanic dw i

Gŵr tŷ dw i / Gwraig tŷ dw i

Dw i wedi ymddeol

Dw i'n ddi-waith

What do you do?

I'm a teacher (female)

I'm a mechanic

I'm a house husband / I'm a housewife

I'm retired

I'm unemployed



6. Ble dych chi'n gweithio?

Dw i'n gweithio mewn siop
Dw i'n gweithio yn y banc
Dw i'n gweithio yn Tesco
Dw i'n gweithio fel actor
Dw i'n gweithio i M&S

Where do you work?

I work in a shop

I work in the bank

I work in Tesco

I work as an actor

I work for M&S



Holiadur

Ewch o gwmpas y dosbarth er mwyn llenwi'r grid.

Go around the class to fill in the grid.

Enw?	Gethin						
Rhif ffôn?	209887						
Byw?	Gorseinon						
O ble?	Gaerdydd						
Gweithio?	Banc						



Deialog

- A:** Wel, helo, sut dych chi?
B: Da iawn, diolch.
A: Dych chi'n byw yn Aberhonddu nawr?
B: Nac ydw. Dw i'n byw yn Llanelli.
A: Beth dych chi'n wneud nawr?
B: Dw i'n gweithio yn y banc. A chi?
A: Dw i wedi ymddeol. A dw i'n dysgu Cymraeg!

Geirfa

actor	- actor
ar bwys	- near
ar hyn o bryd	- at the moment
athrawes (b)	- teacher (female)
athro	- teacher (male)
banc	- bank
byw	- to live
di-waith	- unemployed
dod	- to come
enw	- name
gŵr tŷ	- house husband
gwraig tŷ (b)	- housewife
gweithio	- to work
mewn	- in a
nawr	- now
o (+ TM)	- from (+ Soft Mutation)
rhif ffôn	- phone number
siop (b)	- shop
swyddfa (b)	- office
wedi ymddeol	- retired
yn	- in + the / in + specific place
yn wreiddiol	- originally
ysbyty	- hospital
ysgol (b)	- school

Ychwanegwch eirfa
sy'n berthnasol i chi:

Add vocabulary that's
relevant to you:



Gramadeg

Mewn or yn?

Use **mewn** when it means **in a**:

in a hospital = mewn ysbyty

in a factory = mewn ffatri

Use **yn** when it means **in the** or when you refer to somewhere **specific**:

in Glangwili hospital = yn Ysbyty Glangwili

in the Sony factory = yn ffatri Sony

Mutating place-names

With place-names, people often don't mutate after o, but here is how it should be done!

*There is a **soft mutation** after o.*

Pontypridd	o Bontypridd
Bangor	o Fangor
Tyddewi	o Dyddewi
Dinbych	o Ddinbych
Caerfyrddin	o Gaerfyrddin
Glyn-nedd	o Lyn-nedd
Maentwrog	o Faentwrog
Llandudno	o Landudno
Rhydcymerau	o Rydcymerau

Y Treiglad Meddal Soft Mutation

P	→	B
B	→	F
T	→	D
D	→	Dd
C	→	G
G	→	...
M	→	F
Ll	→	L
Rh	→	R

Cwrs Mynediad: Uned 4

Nod: Gofyn am wybodaeth sylfaenol am berson arall a'i rhoi
Asking for and giving basic information about another person

- | | |
|-----------------------------|-----------------------------|
| 1. Beth yw ei enw e? | <i>What's his name?</i> |
| Huw yw e | <i>He's Huw</i> |
| Beth yw ei henw hi? | <i>What's her name?</i> |
| Carol yw hi | <i>She's Carol</i> |
| Pwy yw e? | <i>Who's he?</i> |
| Simon yw e | <i>He's Simon</i> |
| Pwy yw hi? | <i>Who's she?</i> |
| Llinos yw hi | <i>She's Llinos</i> |
| Gareth yw e? | <i>Is he/that Gareth?</i> |
| Ie / Nage | <i>Yes/No</i> |
| Heulwen yw hi? | <i>Is she/that Heulwen?</i> |
| Ie / Nage | <i>Yes/No</i> |

- | | |
|--|---|
| 2. Beth yw ei rif ffôn e? | <i>What is his phone number?</i> |
| Beth yw ei rhif ffôn hi? | <i>What is her phone number?</i> |
| Beth yw rhif ffôn Edward/Carol? | <i>What is Edward/Carol's phone number?</i> |
| Caerdydd 567440 | <i>Cardiff 567440</i> |



Trafod rhifau ffôn

Discussing phone numbers

Ysgrifennwch enwau 4 person a holwch **rywun arall** beth yw eu rhif ffôn.

*Write the names of 4 people and ask **someone else** for their phone number.*

Enw	Rhif ffôn

3. Ble mae e'n byw?

Mae e'n byw mewn fflat

Mae e'n byw ar fferm

Ble mae hi'n byw?

Mae hi'n byw yn y wlad

Mae hi'n byw yn y dre

O ble mae e/hi'n dod yn wreiddiol?

Mae e'n dod o Aberdâr yn wreiddiol

Mae hi'n dod yn wreiddiol o'r Rhyl

Where does he live?

He lives in a flat

He lives on a farm

Where does she live?

She lives in the country

She lives in town

Where does he/she come from originally?

He comes from Aberdare originally

She comes from Rhyl originally

4. Beth mae e'n wneud?

Mecanic yw e

Beth mae hi'n wneud?

Meddyg yw hi

What does he do?

He's a mechanic

What does she do?

She's a doctor

Dyfalw beth mae e neu hi'n wneud

Guessing what he/she does



Gofynnwch i'ch partner:

Ask your partner:

'Beth mae Morys yn wneud? Artist yw e?'

neu: 'Beth mae Linda'n wneud? Ysgrifenyddes yw hi?'





5. Ydy e'n gweithio?

Ydy, mae e'n gweithio fel garddwr
Ydy, mae e'n gweithio gyda phlant
Nac ydy, mae e'n ddi-waith

Does he work?

*Yes, he works as a gardener
Yes, he works with children
No, he's unemployed*

Ydy hi'n gweithio?

Ydy, mae hi'n gweithio fel ysgrifenyddes
Ydy, mae hi'n gweithio gyda chyfrifiaduron
Nac ydy, mae hi wedi ymddeol

Does she work?

*Yes, she works as a secretary
Yes, she works with computers
No, she's retired*

Deialog

- A:** Dych chi'n nabod Gareth Lloyd?
B: Gareth Lloyd? Meddyg yw e?
A: Ie, mae e'n byw ar bwys Pontarddulais.
B: Ydy e'n gweithio nawr?
A: Ydy. Mae e'n gweithio mewn ysbyty yn Abertawe.
B: Ond o ble mae e'n dod yn wreiddiol?
A: O Gaerdydd, dw i'n meddwl.



Geirfa

actor	- actor
actores (b)	- actress
adeiladwr	- builder
ar fferm	- on a farm
cyfrifiadur(on)	- computer(s)
fel	- as (a)
fferm (b)	- farm
ffermwr	- farmer
fflat	- flat
gwybod	- to know (fact)
gyda	- with
gyda chyfrifiaduron	- with computers
gyda fi	- with me
gyda phlant	- with children
gyrru	- to drive
gyrrwr	- driver
mecanic	- mechanic
meddwl	- to think
meddyg, doctor	- doctor
nabod	- to know (person)
nyrs	- nurse
ond	- but
plant	- children
plismôn	- policeman
plismones (b)	- policewoman
siopwr	- shopkeeper; shopper
swyddog gweinyddol	- administrative officer
trydanwr	- electrician
tŷ	- house
y wlad	- the country/countryside
y dre	- the town
ysgrifennydd	- secretary (male)
ysgrifenyddes (b)	- secretary (female)
Dyma Edward	- This is Edward
Dw i ddim yn gwybod -	I don't know (fact)



Ychwanegwch eirfa sy'n berthnasol i chi:

*Add vocabulary that's
relevant to you:*



Gramadeg

Answering 'Yes / No'

We have already seen that if a question begins with:

Dych chi ...?

the answer is Ydw / Nac ydw

If a question begins with:

Ydy e / Ydy hi ...?

the answer is Ydy / Nac ydy

If there is a name or profession at the beginning of the question:

Huw dych chi?

Actor yw e?

the answer is Ie / Nage

yn ('n) and wedi

You don't need 'n with wedi:

Dw i wedi ymddeol. (Not: *Dw i'n wedi ymddeol.)

y / yr / 'r

y is used before consonants -

y dre, y siop

yr is used before vowels and 'h' -

yr ysbyty, yr ysgol, yr adran (department), yr haf (summer)

'r is used after vowels -

Beth yw enw'r dyn? (What's the man's name?)

Mae e'n gyrru'r lori. (He drives the lorry)

Cwrs Mynediad: Uned 5

Nod: Adolygu ac ymestyn *Revision and extension*

- | | |
|-----------------------------|---|
| 1. Sut dych chi erbyn hyn? | <i>How are you by now?</i> |
| Sut mae heno? | <i>How are you/things tonight?</i> |
| Sut dych chi heddiw? | <i>How are you today?</i> |
| Sut mae prynhawn 'ma? | <i>How are you/things this afternoon?</i> |
| Esgusodwch fi! | <i>Excuse me!</i> |
| Os gwelwch chi'n dda / Plis | <i>Please</i> |
| Croeso | <i>Welcome/You're welcome</i> |

- | | |
|---------------------|------------------------------|
| 2. Gwraig Bob dw i | <i>I'm Bob's wife</i> |
| Gŵr Helen yw e | <i>He's Helen's husband</i> |
| Partner Kevin yw hi | <i>She's Kevin's partner</i> |
| Ffrind Sandra yw hi | <i>She's Sandra's friend</i> |

Grid 'Pwy dych chi?'

Darllenwch y brawddegau y mae'r tiwtor wedi eu rhoi ichi, a'u cofio!

Ysgrifennwch enw'r person dych chi'n ei holi a gofynnwch 'Pwy dych chi?'

Ysgrifennwch yr enwau yn y blychau perthnasol.

Read the sentences your tutor has given you, and remember them! Write the name of the person you're talking to and ask who he or she is. Write the names in the relevant boxes.

ENW	Partner/ Cariad pwy?	Gŵr/Gwraig pwy?	Brawd/ Chwaer pwy?	Tad/Mam pwy?	Mab/Merch pwy?	Ffrind pwy?
<i>Carol</i>		<i>Elfed</i>	<i>Simon</i>	<i>Donna</i>	<i>Sheila a Derek</i>	<i>Siân</i>

Pwy dych chi'n nabod 'te?!



Sgwariau sydyn

Dewiswch un elfen o bob sgwâr ac atebwch gwestiynau eich partner.

Choose one element from each square and answer your partner's questions.

enw?

Sara	Meirion	Elwyn
Nesta	Ceinwen	Huw
Morys	Rholant	Betsan
Esyllt	Iwan	Llŷr

byw?

mewn tŷ	yn y wlad
mewn carafán	mewn fflat
mewn bwthyn	ar fferm
mewn hostel	yn y dre
i fyfyrwr	

yn wreiddiol?

O Bontypridd	O Lundain
O Dde Affrica	O Tiger Bay
O Langwryfon	O Abertawe

gweithio?

yn ysbyty Singleton
mewn swyddfa
yn Asda
mewn llyfrgell
gyda Huw Jones

Fy ffrind gorau

Llenwch y golofn 'Fy Ffrind Gorau 1' nawr, ac ar ddiwedd y gweithgaredd llenwch 'Fy Ffrind Gorau 2'.

Complete the column 'Fy Ffrind Gorau 1' now, and at the end of the activity, fill in 'Fy Ffrind Gorau 2'.

	Fy Ffrind Gorau 1	Fy Ffrind Gorau 2
Enw		
Byw?		
Dod?		
Gwneud?		




Siart achau

Edrychwch ar y siart achau hon, a siaradwch â'ch partner.

Cofiwch am yr atebion 'Ie' a 'Nage'!

With your partner, take your turns to ask and answer questions based on the family tree. Some examples are given. Remember the responses, 'Ie' and 'Nage'!



- A:** Brawd Sue yw Marc?
- B:** Nage, gŵr Sue yw Marc. Mab Meriel yw Ioan?
- A:** Nage, etc.

Darn i'w ddarllen yn uchel

Read this paragraph aloud:

Carys Morgan yw fy ffrind gorau. Mae hi'n byw ar bwys Llanfair-pwll erbyn hyn, ond mae hi'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol. Mae hi'n gweithio i'r Cyngor Cefn Gwlad ym Mangor a dw i'n gweithio gyda hi yno. Mae ei phartner hi, Robert, yn gweithio gyda chyfrifiaduron yn y tŷ. Mae e'n dod o Loegr yn wreiddiol ac mae e'n dysgu Cymraeg mewn dosbarth yng Nghaernarfon.



Geirfa

brawl	- brother
bwthyn	- cottage
carafán (b)	- caravan
cariad	- boyfriend/girlfriend
cath (b)	- cat
ci	- dog
chwaer (b)	- sister
erbyn hyn	- by now
Esgusodwch fi!	- Excuse me!
gŵr	- husband
gwraig (b)	- wife
gyda hi	- with her
heddiw	- today
heno	- this evening, tonight
hostel i fyfyrwyr	- students' hostel
mab	- son
mam (b)	- mother
merch (b)	- daughter
neu	- or
o hyd	- still
os gwelwch yn dda	- please
plis	- please
tad	- father
teulu	- family
yng nghyfraith	- in law

Ychwanegwch eirfa sy'n berthnasol i chi:

*Add vocabulary that's
relevant to you:*




Gramadeg

Mutations

Dyma'r treigladau dyn ni wedi eu gweld hyd yn hyn.

For reference, these are the mutations we have seen so far. Not all Welsh-speakers use them consistently, so don't worry too much about them at this stage!

Treigladau Meddal Soft Mutation			Treigladau Trwynol Nasal Mutation		
P	→	B	P	→	Mh
B	→	F	B	→	M
T	→	D	T	→	Nh
D	→	Dd	D	→	N
C	→	G	C	→	Ngh
G	→	...	G	→	Ng
M	→	F			
Ll	→	L			
Rh	→	R			





Gwranddo

1. Rhewch gylch o gwmpas yr enwau pobl/lleoedd dych chi'n eu clywed.

Put a circle around the names and place-names that you hear.

Carwyn	Geraint	Aberystwyth
Abertawe	Llywelyn	Hwlfordd
Garmon	Caerfyrddin	Caerdydd
Glyndwr	Casnewydd	Branwen
Llanelli	Abergwaun	Marian

2. Dewiswch rhwng yr ateb yng ngholofn A neu B.

Choose between the answer in columns A or B.

	A	B
Ble mae Geraint Lloyd heno?	Caerdydd	Abertawe
O ble mae Garmon yn dod yn wreiddiol?	Casnewydd	Caerdydd
Ble mae Garmon yn gweithio?	mewn ffatri	mewn llyfrgell
Ble mae Branwen yn byw?	mewn fflat	ar fferm
Beth yw gwaith Branwen?	ysgrifenyddes	plismones
Beth yw enw mam Branwen?	Marian	Miranda

3. Llenwch y grid.

Complete the grid.

Enw	Dod o?	Gweithio?	Byw?
Garmon			
Branwen			

Rhestr gyfair *check list*

✓ Ticiwch beth dych chi'n gallu gwneud. Yn Gymraeg! *Tick what you can do. In Welsh!*

☐

Dw i'n gallu rhifo o 0 - 10
I can count from 0 - 10

Dw i'n gallu cyfarch pobl
I can greet people

☐

yn y bore
in the morning

☐

yn y prynhawn
in the afternoon

☐

gyda'r nos
in the evening

☐

Dw i'n gallu dweud dyddiau'r wythnos
I can say the days of the week

☐

Dw i'n gallu dweud beth yw fy enw
I can say what my name is

☐

Dw i'n gallu dweud beth yw fy rhif ffôn
I can say what my phone number is

☐

Dw i'n gallu dweud pwy ydw i, e.e. Partner Kevin dw i.
I can say who I am, e.g. I'm Kevin's partner.

☐

Dw i'n gallu dweud ble dw i'n byw
I can say where I live

☐

Dw i'n gallu dweud beth dw i'n gwneud
I can say what I do

☐

Dw i'n gallu dweud ble dw i'n gweithio
I can say where I work

☐

Dw i'n gallu gofyn am fanylion personol rhywun arall
I can ask for another person's personal details

☐

Dw i'n gallu dweud beth yw enw rhywun arall
I can say what another person's name is

☐

Dw i'n gallu dweud pwy yw e/hi, e.e. Ffrind Siân yw hi
I can say who he/she is, e.g. She's Siân's friend

☐

Dw i'n gallu dweud beth yw rhif ffôn rhywun arall
I can say what someone else's phone number is

☐

Dw i'n gallu dweud ble mae rhywun arall yn byw
I can say where someone else lives

☐

Dw i'n gallu dweud beth mae rhywun arall yn gwneud
I can say what someone else does

☐

Dw i'n gallu dweud ble mae rhywun arall yn gweithio
I can say where someone else works



Patrymau'r cwrs hyd yma

Patterns encountered so far

Pwy dych chi?	- Emma dw i.
Beth yw'ch enw chi?	
Pwy yw e?	- Dafydd yw e.
Beth yw ei enw e?	
Pwy yw hi?	- Carys yw hi.
Beth yw ei henw hi?	
Penri dych chi?	- Ie / Nage
Elvis yw e?	- Ie / Nage
Ffrind pwy dych chi?	- Ffrind Mari dw i.
Brawd pwy yw e?	- Brawd John yw e.
Chwaer pwy yw hi?	- Chwaer Bethan yw hi.
Beth yw'ch rhif ffôn chi?	- Bangor 985995
Beth yw ei rif ffôn e?	
Beth yw ei rhif ffôn hi?	
Sut dych chi?	- Da iawn / Gweddol / Ofnadwy
Beth dych chi'n wneud?	- Mecanic dw i.
Beth mae e/hi'n wneud?	- Meddyg yw e/hi.
Ble dych chi'n byw?	- Dw i'n byw yn Abertawe.
Ble mae e/hi'n byw?	- Mae e/hi'n byw yn Llanfair-pwll.
Dych chi'n byw yn X?	- Ydw / Nac ydw
	- Dw i ddim yn byw yn X.
Ydy e/hi'n byw yn X?	- Ydy / Nac ydy
O ble dych chi'n dod (yn wreiddiol)?	- Dw i'n dod o Bontypridd (yn wreiddiol).
O ble mae e/hi'n dod (yn wreiddiol)?	- Mae e/hi'n dod o Fangor (yn wreiddiol).
Ble dych chi'n gweithio?	- Dw i'n gweithio yn y banc.
Ble mae e/hi'n gweithio?	- Mae e/hi'n gweithio mewn swyddfa.
Dych chi'n gweithio fel garddwr?	- Ydw / Nac ydw
Ydy e/hi'n gweithio fel trydanwr?	- Ydy / Nac ydy



Geirfa hanfodol Unedau 2 – 5

Essential Vocabulary from Units 2 - 5

ar bwys	-	<i>near</i>
ar hyn o bryd	-	<i>at the moment</i>
Bore da	-	<i>Good morning</i>
brawd	-	<i>brother</i>
byw	-	<i>to live</i>
cariad	-	<i>boyfriend/girlfriend</i>
carafán (b)	-	<i>caravan</i>
cath (b)	-	<i>cat</i>
ci	-	<i>dog</i>
chwaer (b)	-	<i>sister</i>
da	-	<i>good</i>
da iawn	-	<i>very good / very well</i>
Da boch chi	-	<i>Goodbye</i>
Diolch	-	<i>Thank you</i>
dod	-	<i>to come</i>
Dyma ...	-	<i>This is ...</i>
enw	-	<i>name</i>
Esgusodwch fi!	-	<i>Excuse me!</i>
fel	-	<i>as (a)</i>
fferm (b)	-	<i>farm</i>
fflat (b)	-	<i>flat</i>
go lew / gweddol	-	<i>O.K., not bad</i>
gŵr	-	<i>husband</i>
gwraig (b)	-	<i>wife</i>
gweithio	-	<i>to work</i>
gwybod	-	<i>to know (fact)</i>
gyda	-	<i>with</i>
heddiw	-	<i>today</i>
heno	-	<i>this evening</i>
Hwyl	-	<i>Goodbye</i>
lawn	-	<i>Fine</i>
mab	-	<i>son</i>

Rhifau

Numbers

0	-	<i>dim</i>
1	-	<i>un</i>
2	-	<i>dau</i>
3	-	<i>tri</i>
4	-	<i>pedwar</i>
5	-	<i>pump</i>
6	-	<i>chwech</i>
7	-	<i>saith</i>
8	-	<i>wyth</i>
9	-	<i>naw</i>
10	-	<i>deg</i>

Dyddiau'r Wythnos

Days of the week

Dydd Sul	<i>Sunday</i>
Dydd Llun	<i>Monday</i>
Dydd Mawrth	<i>Tuesday</i>
Dydd Mercher	<i>Wednesday</i>
Dydd Iau	<i>Thursday</i>
Dydd Gwener	<i>Friday</i>
Dydd Sadwrn	<i>Saturday</i>

mam (b)	- mother
meddwl	- to think
merch (b)	- daughter
mewn	- in a
nawr	- now
nabod	- to know (person)
neu	- or
Noswaith dda	- Good evening
o (+ TM)	- from (+ Soft Mutation)
o hyd	- still
ofnadwy	- terrible
ond	- but
os gwelwch yn dda	- please
plant	- children
plis	- please
Prynhawn da	- Good afternoon
rhif ffôn	- phone number
siop (b)	- shop
swyddfa (b)	- office
tad	- father
teulu	- family
tŷ	- house
wedi blino	- tired
wedi ymddeol	- retired
y wlad (b)	- the country/countryside
y dre (b)	- the town
yn	- in + the / in + specific place
yn wreiddiol	- originally
yng nghyfraith	- in law
ysbyty	- hospital
ysgol (b)	- school
ysgrifenyddes (b)	- secretary (female)

